

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 11eg Ionawr 2016 yn Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig

Presennol: Richard (RR) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Gareth (GR), Sian Shakespear (SS), Mark (MW), Gwyn (GW), Elen (EH), Iolo (ap Gwynn) (IAG)

Hefyd yn bresennol – Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Prydain) ac Aneurin Phillips

Ymddiheuriadau: Sian Williams, Myfyr, Dewi, Eirwen

1. CYNGOR MYNYDDA PRYDAIN

Roedd Elfyn Jones, Swyddog Cadwraeth a Mynediad (Cymru) o Gyngor Mynydda Prydain (CMP) yn bresennol i drafod perthynas y corff gyda'r Clwb.

Nododd ei fod wedi ei gyflogi gan CMP ers 6 mlynedd bellach, mai ef oedd unig swyddog y Corff yng Nghymru a bod ei swyddfa wedi ei lleoli ym Mhlas y Brenin. Mae ei swydd yn ymwneud a materion mynediad a chadwraeth – briff eang a chan mai ef yw'r unig swyddog yng Nghymru, golyga y fod cryn deithio ledled Cymru yn gysylltiedig a'r swydd.

Mae gan y CMP 80,000 o aelodau, 5,000 ohonynt yng Nghymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys aelodau uniongyrchol ac aelodau trwy glybiau fel Clwb Mynydda Cymru sydd yn aelod o'r corff.

Yn gyffredinol mae diffyg ymwybyddiaeth yn y CMP am Gymru ac ychydig o ddealltwriaeth ei bod yn wlad ar wahan gyda phroblemau a phryderon sydd yn benodol iddi. Un enghraifft o hyn yw mai Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd sydd bellach yn gyfrifol am faterion sy'n dod o fewn i faes y CMP yng Nghymru ac felly gyda nhw y dylid cysylltu i drafod materion penodol sydd yn codi.

Mae proffil yr iaith Gymraeg yn y mudiad yn isel hefyd. Nododd Elfyn mai un ffordd y gallai'r Clwb Mynydda helpu fyddai drwy i aelodau fynychu'r cyfarfodydd rhanbarthol a drefnir gan y CMP. Mae tri phwyllgor o'r math, yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De ac ar hyn o bryd pobl o du allan i Gymru gan amlaf yw mwyafrif y cyfarfodydd hyn. Mae ychydig o aelodau'r Clwb eisoes yn eu mynychu ond pe byddai cynrychiolaeth fwy sylweddol o aelodau'r Clwb yn bresennol gallasai newid natur a chymeriad y cyfarfodydd. Byddai felly yn croesawu gweld mwy o gynrychiolaeth o aelodau'r Clwb yn y cyfarfodydd hyn.

Hefyd nododd nad yw'r corff yn cynhyrchu llawer o ddim yn ddwyieithog. Byddai yn croesawu cefnogaeth i hyrwyddo hyn. Mater syml fyddai rhoi deunydd dwyieithog ar safle We y CMP.

Holodd os oedd unrhywbeth y gallai'r CMP ei wneud i gefnogi gweithgareddau'r Clwb megis codi sgiliau aelodau sydd yn arwain gweithgareddau'r clwb.

Gyda 2016 wedi ei dynodi fel Blwyddyn Antur gan Lywodraeth Cymru mae'r CMP yn edrych ar y posibilrwydd o greu swydd i hybu mynydda ymysg yr ieuencid yng Nghymru. Y tebygolrwydd yw y bydd hyn yn digwydd mewn cydweithrediad a Phartneriaeth Awyr Agored. Byddai angen pwysu ar Gyngor Chwaraeon Cymru i gefnogi yn ariannol ac o bosib gallai'r Clwb helpu hefo hyn.

Problem arall a wynebier hefo Cyngor Chwaraeon Cymru yw nad ydynt yn y gorffennol wedi bod yn barod i roi grantiau i gefnogi unigolion sydd angen datblygu eu sgiliau awyr agored. Mae Sport England yn barod i wneud hyn. Fel canlyniad, os yw unigolion o Gymru eisiau gwneud cais am grant o'r fath rhaid iddynt geisio cymorth gan Sport England a datgan eu bod Saeson o safbwynt cenedligrwydd ar y ffurflen gais er mwyn cymhwyso am gymorth.

Nododd Elfyn bod y CMP yn barod i gefnogi'r Clwb gyda'r prosiect i gynhyrchu llyfr ar fynydda drwy roi grant o £1,000. Dywedodd hefyd os y byddai angen cymorth ychwanegol gallent gynnig benthyciad di-log

Cafwyd trafodaeth ar y materion a godwyd gan Elfyn ac roedd yna werthfawrogiad ymysg aelodau'r pwyllgor o'r gwaith penigamp y mae yn ei wneud yn arbennig yn ei frwydr i geisio codi statws y Gymraeg oddi fewn i'r CMP ac roedd yna barodrwydd i'r Clwb Mynydda geisio ei gefnogi lle bynnag y byddai yn bosib gwneud hynny. Un awgrym a wnaed oedd y gallai'r Clwb enwebu nifer o aelodau o'r Gogledd, Canolbarth a'r De a fyddai yn gallu mynychu'r cyfarfodydd rhanbarthol ac y gellid ystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd RR i Elfyn am ei gyflwyniad diddorol ac roedd yn edrych ymlaen i weld y Clwb Mynydda yn cydweithio gyda'r CMP ar rai o'r materion a godwyd. Ar ran y Pwyllgor hefyd diolchodd i Elfyn am sicrhau y cymorth ariannol oddi wrth y CMP ar gyfer cyhoeddi 'r llyfr ar fynydda.

Mynegwyd siom at ddiffyg parodrwydd Cyngor Chwaraeon Cymru i gefnogi gweithgareddau awyr agored yn arbennig yn sgil y ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan fod 2016 yn Flwyddyn Antur..

2

LLYFRYN MYNYDDA

A. Cyffredinol

Croesawyd Aneurin Phillips sydd yn arwain y panel trefnu lluniau ar gyfer y llyfr i'r cyfarfod.

Adroddodd Aneurin bod ymateb yr aelodau i'r apel am luniau ar gyfer y llyfr wedi bod yn dda gyda dros 400 o luniau wedi eu derbyn. Roedd yr ansawdd yn amrywiol ac roedd prinder lluniau ar gyfer rhai o'r teithiau ar y rhestr

Bydd y Panel Lluniau yn cwrdd ar ddydd Llun 18fed Ionawr ym Mhlas Tan y Bwlch. Y bwriad yw i gael dau lun ar gyfer pob taith, un prif lun a'r ail lun ar raddfa lai, o bosib yn gysylltiedig a'r panel gwybodaeth ar gyfer y daith. Er mwyn i'r Panel Lluniau allu gwneud eu gwaith roedd angen arweiniad gan y pwyllgor ar ba deithiau y byddid yn eu cynnwys yn y llyfr ac hefyd gwybodaeth pendant am gynnwys y paneli gwybodaeth ar gyfer pob taith. Byddent hefyd yn gorfod penderfynu sut i lenwi'r bylchau os byddai'r lluniau yn brin ar gyfer rhai o'r teithiau ond fe nodwyd y byddai Gerallt Pennant yn fodlon edrych ar ei gasgliad helaeth o luniau, wedi eu tynnu dros y blynyddoedd, i weld os y gallai gynorthwyo. Os byddai bylchau wedyn mae'n bosib y byddai'n rhaid trefnu i dynnu lluniau.

CYTUNWYD

- Derbyn y rhestr teithiau yr oedd EO wedi ei pharatoi ar gyfer y llyfr ond ychwanegu taith Moelydd y Wyddfa ar wahan fel bod cyfanswm o hanner cant o deithiau.
- Cynnwys rhestr yng nghefn y llyfr i gydnabod y rhai gyfrannodd luniau.
- Derbyn y bydd y Panel Lluniau yn cymeradwyo dau lun ar gyfer pob taith, un prif lun ac ail lun yn gysylltiedig a'r paneli gwybodaeth. Gall y prif lun fod yn unai yn dirlun cyffedin neu yn fwy atmosfferig ei naws ond yn bwysig cael croesdoriad o'r tymhorau lle bo hynny yn bosib
- Gofalu os yn bosib bod 3ydd a 4ydd dewis o lun ar gyfer pob taith rhag ofn y bydd bylchau yn yn nhudalennau'r llyfr angen eu llenwi
- Cydnabod bod y paneli gwybodaeth yn cyfoethogi'r disgrifiadau ac y dylid ceisio sicrhau bod rhai ar gyfer pob taith yn y llyfr. Byddai cael rhai ar fyd natur yn dderbyniol.
- Dylid cael tudalen neu ddwy yn y llyfr yn olrhain hanes y Clwb Mynydda. Cytunwyd y byddai SS yn trafod dyddiau cynnar y Clwb hefo Dei Tomos ac yn trosglwyddo'r wybodaeth i IAG ar gyfer paratoi hyn.
- Nodi y bydd tudalen yn rhoi gwybodaeth am gyrrff o ddi-ddordeb i fynyddwyr yn y llyfr .
- Mynegi gwerthfawrogiad y Pwyllgor o'r gwaith arbennig ac allweddol y mae'r Panel Lluniau yn ei wneud er mwyn gallu symud ymlaen hefo'r trefniadau ar gyfer paratoi'r llyfr.

B. Cyllid

Trafodwyd y posibilïadau o dderbyn cymorth ariannol ar gyfer y gost o gyhoeddi'r llyfr

Nodwyd fod Elfyn Jones wedi cadarnhau yn gynharach yn y cyfarfod y byddai'r Cyngor Mynydda Prydain yn fodlon rhoi cyfraniad o £1,000 tuag at y gost o gynhyrchu'r llyfr.

Ystyriwyd nodyn briffio gan Clive James yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf parthed ei ymdrechion i sicrhau cymorth ariannol o wahanol ffynonellau tuag at y costau.

Nododd Clive:

1. Fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo grant o £500 tuag at y gost o gynhyrchu'r llyfr. Roedd angen cyflwyno cais ffurfiol erbyn diwedd Ionawr 2016 ac byddai angen cymorth gyda chwblhau'r cais.

2. Bod cais wedi ei gyflwyno i Awdurdod Parc Cenedlaethol y Bannau ar 5 Ionawr 2016 tuag at y gost o hyrwyddo'r llyfr gyda'r cais wedi ei seilio ar gefnogi amryw o weithgareddau hyrwyddo yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni ym mis Awst eleni.

3. Roedd wedi cysylltu hefo Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro i weld os oedd ganddynt gronfeydd grantiau posib a ellid fod o gymorth

4. Roedd yn edrych ar ffynonellau eraill hefyd megis Cronfa'r Loteri Genedlaethol

Cytunwyd

- Diolch yn fawr iawn i Clive am ei holl waith diwyd yn mynd ar ol y gwahanol ffynonellau grantiau posib
- Gofyn i Clive gadarnhau hefo Richard, Eryl a Gwyn pa wybodaeth pellach a fyddai ei angen er mwyn cwblhau'r cais am grant i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Gan mai ym mis Tachwedd y byddai'r llyfr yn cael ei lansio, ymddengys y byddai cynnal gweithgareddau hyrwyddo ym mis Awst yn gynamserol ond o bosib byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol y Bannau yn fodlon cynorthwyo i gefnogi ei hyrwyddo yn ddiweddarach yn y flwyddyn
- Er mwyn osgoi gwneud gormod o geisiadau am gymorth a fyddai yn creu gwaith ac o bosib arwain at lu o ofynion arbennig yn cael eu gosod ar y prosiect ac yn sgil natur y llyfr ni welwyd fod yna lawer o ddiben i wneud cais am gymorth i Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro
- O gofio mai Gwasg Masnachol sy'n cyhoeddi'r llyfr ac byddai'n anhebyg y byddent yn fodlon rhannu gwbyodaeth am eu costau ac ati mewn unrhyw gais am gymorth, yn sgil hyn gwelwyd y byddai'n broblemus i gael cymorth o fudiadau fel y Loteri Cenedlaethol
- Gofyn i Clive drafod hefo Elfyn Jones sut y dylid gwneud cais am yr arian oddi wrth Cyngor Mynydda Prydain.

3 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 28ain o Fedi 2015 fel rhai cywir.

Materion yn codi

EITEM 1 – COFNODION- RHAGLEN HYFFORDDIANT/DIWRNOD BLASU

Adroddodd RR ei fod wedi cysylltu gyda Chlybiau Dringo Prifysgolion Cymru ond heb dderbyn ymateb. Byddai'n cysylltu gyda nhw eto ac hefyd yn cysylltu gyda Chymdeithasau Cymraeg y Prifysgolion yr un pryd. Trefnodd hefyd i gyfarfod hefo swyddogion Gwersyll yr Urdd, Glan-Llyn ar y 12fed Ionawr.

Adroddodd IAG ei fod wedi dylunio cardiau cyhoeddusrwydd ar gyfer y Clwb ac fe gytunwyd y byddai RR yn trefnu eu hargraffu wedi derbyn pris argarffu cyflenwad o 1000 o'r cardiau oddi wrth dri chwmni argraffu.

4 EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2016 - DARLITH

Cytunwyd 1. B yddai SS yn gofyn i Gerallt Pennant roi darlith y Clwb yn yr Eisteddfod eleni gyda Bob Puw fel enw wrth gefn,

	<p>2. Dylid cynnig dyddiad ac amser gwahanol ar gyfer y ddarlith eleni ac anelu i'w chynnal am 4pm ar y dydd Iau</p>	
5	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO y byddai'n symud ymlaen i baratoi rhaglen ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst 2016.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid cynnig ambell i daith fer ar Sadyrnau • Dylid ceisio trefnu diwrnod penodol ar gyfer gweithgareddau dringo • Anelu i drefnu gweithgaredd ar y cyd hefo'r Urdd neu Undebau Myfyrwyr • Gofyn i Richard Mitchley drefnu taith fer addas i deuluoedd yn ardal yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. 	
6	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL</u></p> <p>Cyfarfod Blynyddol 2015 - cyflwynodd IPR er gwybodaeth gofnodion Cyfarfod Blynyddol 2015 a gynhaliwyd ym Metws y Coed yn Nhachwedd 2015 a gofynnodd i'r aelodau gysylltu ag ef os oedd ganddynt sylwadau am eu cywirdeb.</p> <p>Cyfarfod Blynyddol 2016 – Cytunwyd y dylid ceisio cynnal y cyfarfod blynyddol eleni ar ddydd Sadwrn cyntaf mis Tachwedd ac awgrymwyd naill ai Plas Tan y Bwlch neu Westy'r Oakley yn ardal Maentwrog fel lleoliad addas. IPR i wneud trefniadau.</p>	
7	<p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT</u></p> <p>Nodwyd bod cwrs cymorth cyntaf wedi ei drefnu ar gyfer aelodau'r clwb yn ddiweddarach yn mis Ionawr.</p> <p>Codwyd y posibilrwydd os oes criw sylweddol o aelodau'r Clwb eisiau mynychu cwrs partneriaeth (sef nifer ddigonol i wneud cwrs yn gynladwy) ar weithgaredd penodol gellir gofyn iddynt ddarparu siaradwr Cymraeg fel hyfforddwr.</p>	
8	<p><u>OFFER</u></p> <p>Yn sgil gwaeledd MT doedd dim i'w adrodd.</p>	
9	<p><u>CLWB MYNYDDA CYMRU & CLWB MYNYDDA TREFELIN, ARIANIN.</u></p> <p>Adroddodd IPR</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Fod Clive James wedi cysylltu ag ef yn holi os oedd y Clwb wedi derbyn unrhyw ohebiaeth oddi wrth Clwb Mynydda Trefelin (CMT). Roedd ar ddeall gan Bob Puw, sydd yn mynd i'r Wladfa yn mis Mawrth eleni, bod CMT yn dymuno cysylltiad o rhyw fath hefo'r Clwb ond toedd ganddo ddim gwybodaeth bellach. Nododd Clive hefyd ei fod ar ddeall mai ychydig iawn o aelodau'r CMT oedd yn medru'r Gymraeg o gwbl. 2. Nad oedd unrhyw ohebiaeth wedi ei dderbyn oddi wrth CMT 3. Adroddodd GW ei fod yn cyfarfod gyda'r Wasg sy'n cyhoeddi'r llyfr Mynydda yn y dyfodol agos ac ei fod yn gwybod bod un o'r gweithwyr yno gyda chysylltiadau cryf a'r Wladfa ac y gallai ei holi os gwyddai unrhyw beth am y clwb. <p>Cytunwyd gan nad oedd unrhyw ohebiaeth wedi ei dderbyn oddi wrth CMT na ellid symud ymlaen ac y dylid dweud wrth Bob Puw am son wrthynt y gallent gael mwy o wybodaeth am y Clwb a chysylltu trwy ein safle We.</p>	
9	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Doedd dim i'w adrodd</p>	

10	<p><u>CWMNI TELEDU RONDO</u></p> <p>Adroddwyd gan SS bod cynrychiolydd o Gwmni Teledu Rondo wedi cysylltu a hi i son eu bod mewn trafodaeth hefo'r BBC ynglyn a chomisiynu rhaglen ar fynydda. Gwnaed rhaglen gyffelyb ar weithgareddau dŵr y llynedd. Roedd y cwmni wedi holi os oedd gan y clwb aelodau y gellid eu hystyried i gynorthwyo trwy ymddangos ar y rhaglen arfaethedig.</p> <p>Awgrymwyd enwau Sian Williams (Porthmadog) Dwynwen Jones a Nathan Price fel aelodau gyda diddordeb mewn amryw o weithgareddau mynydda ac efallai gyda diddordeb mewn ymddangos ar y rhaglen.</p>
11	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai 2016, yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>